COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A'R NOS LUN 22AIN O FAI 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Arwel Davies (Is-gadeirydd), Helen Jones, Rhian Evans, Rhian Jones, Ian Evans, Bari Evans, Manon Davies, Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams a'r Clerc.

1: CROESO.
Croesawyd y Cynghorydd Helen Jones i'r cyfarfod misol gyntaf fel cyfethol aelod y Cyngor.

2. YMDDIHEURIADAU.
Dim.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim

4. TRAFODAETH GYDA CHYNRYCHIOLYDD LLEOL O'R HEDDLU GOGLEDD CYMRU, PCSO GARETH ARMSTRONG O'R ORSAF HEDDLU YN NINBYCH.
Nid oedd y Swyddog yn bresennol yn y cyfarfod. Oherwydd achosion plismona yn y gymuned, penderfynwyd gofyn PCSO Gareth Armstrong fynychu'r cyfarfod nesaf y Cyngor.

5. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.
Derbyniwyd ymddiswyddiadau Ceri Davies a Geraint Jones fel aelod o'r Cyngor ac mi fydd y Clerc yn hysbysu'r ddwy sedd wag trwy Gyngor Sir Ddinbych.

6. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd yr aelodau'r cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 24ain o Ebrill 2023.

7. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.
Eitemau wedi adroddi yn barod isod.

8. YMATEBION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi clustnodi'r gwaith sydd angen ar y ffyrdd yn y gymuned  chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

9. BAND EANG YN Y GYMUNED.
Dim adroddiad ymhellach ar ôl cyfarfod blaenorol y Cyngor.

10. E-BYST HWYLUSYDD TAI GWLEDIG YN Y GYMUNED.
Derbyniwyd ymateb oddi wrth Mari Tudor o Grŵp Cynefin yn cynnig ei swydd fel "Hwylusydd Tai Gwledig y Gymuned" i gwbl holiadur dros y Cyngor Cymuned am £2,000.00 cyn cost stampiau'r "Post Brenhinol" i weld canlyniad oes yna fodd am dai fforddiadwy yn y gymuned.
Penderfynwyd gwahodd Mari Tudur I'r cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y pwnc ymhellach.

## 11. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.

Dosbarthwyd y Clerc rhestr “Sesiynau Hyfforddiant Mis Mehefin 2023 Un Llais Cymru” at Aelodau’r Cyngor Cymuned.

## 12. MATERION CYLLID YN CYNNWYS.

A: Diweddaraf banc y Cyngor £21,477.05.
B. Derbyniwyd rhan gyntaf o’r precept am y flwyddyn ariannol 2023/24 £5,830.00.
C. Taliadau:-
1. Ffi fisol banc HSBC £5.00.
2. Ffi fisol Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y r Cyngor Cymuned £20.00.
3. Un Llais Cymru am hyfforddiant mis Ebrill 2023 y Cyngor £114.00.

## 13. I DRAFOD CEISIADAU CYNLLUNIO MISOL.

Gofynni’r Swyddog Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych os gwrthwynebiad neu sylwadau a dderbyniwyd gan y Cyngor Cymuned i’r cais cynllunio 23/2023/0103 - Newid ac addasiadau i gyn sba i ffurfio llety gwyliau am yr Coach House, Llanrhaeadr Hall, Llanrhaeadr:-
1: Arolwg Ystlumod ddim wedi ei gynnwys.
2. Dim arolwg defnydd lleol o’r adeilad.
3. Mynediad yn rhy gul i’r drafnidiaeth ychwanegol i’r lleoliad.
4. Mae’r lleoliad o’r adeilad yn rhy agos i’r Plas Llanrhaeadr, sef Cartref Nyrsio Preswyl.
Chadarnhawyd yr aelodau bod yr uchod yn sylwadau’r Cyngor Cymuned a bod y farn ynglŷn ar “Arolwg Ystlumod” yn orfodaeth.

## 14. FFERM WYNT FFOREST ALWEN.

Derbyniwyd e-bost oddi wrth RWE Renewables yn cynnig cyfarfod gyda Martin Cole “Rheolwr Prosiect Fferm Wynt Fforest Alwen” ar y 15fed neu 16eg o Fehefin 2023.

## 15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd yr adroddiad canlynol oddi wrth y Cynghorydd Elfed Williams i’r cyfarfod safle ar gyfer 26ain o Ebrill 2023 i gytuno estyniad arwydd 30 filltir yr awr (Ochr Rhuthun) ar yr A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr heibio Pentre Farm yn Llanrhaeadr ar y A525 (ochr Rhuthun).

## 16. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O’R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A: Nodwyd bod yna rhai o’r ffyrdd sydd wedi cael wyneb newydd yn ddiweddar yn y plwyf wedi cychwyn crecio yn barod a bod y contractwyr gorfod ail thario’r darn eto.
B. Mae’r ffyrdd canlynol eisiau sylw am drwsiad:-
1. Cae Glas i Brion Isa’ ym Mhrion.
2. Pant-y-Ci tuag at Ty’n-y-Ffordd ym Mhrion.
3. Y Big tuag at Dŷ Canol ym Mhrion.

## 17. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 26AIN O FEHEFIN 2023 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O’R GLOCH.